Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Talybont

**Ysgol Gynradd Talybont**
**Talybont**
**Ceredigion**
**SY24 5HE**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Talybont

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Talybont |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | Monica Lloyd-Williams |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Victoria Joseph |
| Nifer y lleoedd | 19 |
| Amrediad oedran y plant | 2-4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 8 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau 8.15-3.15. |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r 'Cynnig rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 25/06/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 08/03/2016 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/12/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Cysoni cyfleoedd i’r plant wneud dewisiadau wrth fynegi eu hunain yn greadigol

A2 Sicrhau bod arweinwyr yn cyflogi staff cymwysedig, lle bo’n bosibl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae bron bob plentyn yn mynegi eu teimladau'n hyderus. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau ac yn ffyddiog y bydd ymarferwyr yn dangos diddordeb a pharchu'r hyn sydd ganddynt i'w ddweud. Er enghraifft, maent yn rhannu eu teimladau'n hyderus yn ystod amser cylch. Mae'r rhan fwyaf o blant yn dewis i ble yr hoffent fynd i chwarae ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn bwrpasol.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr gan fod pontio dyddiol effeithlon yn cefnogi anghenion unigol. Maent yn cael croeso cynnes wrth gyrraedd y lleoliad a chysur os ydyn nhw'n ansicr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgartrefu'n gyflym ac yn mynd ati i ddewis ble i chwarae. Mae'r plant wrth eu boddau yn y lleoliad ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad. Er enghraifft, maent yn dechrau neidio a chlapio dwylo wrth glywed eu bod nhw'n ymarfer y caneuon Nadolig. Mae bron bob un yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n aeddfed â'r gweithdrefnau. Maent yn dechrau dangos empathi ac yn dod yn sensitif i anghenion eraill. Er enghraifft, os yw ffrind yn teimlo'n ansicr, maent yn dweud wrth ymarferydd eu bod yn poeni amdanynt.

Mae ganddynt ymdeimlad cryf ac amlwg o berthyn, gan ffurfio cydberthnasau positif. Mae mwyafrif y plant yn hapus i fynegi eu hunain ac yn gwybod y bydd ymarferwyr yn gweithredu a pharchu eu barn. Er enghraifft, mae plant sydd wedi blino yn fodlon iawn i gael eu cysuro gan ymarferwyr ac mae hyn yn gwneud iddynt deimlo'n hapus ac yn ddiogel. Mae llawer yn rhannu adnoddau'n dda neu'n chwarae ochr yn ochr â'u ffrindiau. Maent yn dyfeisio gemau chwarae rôl sy'n dilyn eu diddordebau, fel chwarae gyda'r offer meddygol neu baratoi cinio yn y gegin. Mae bron bob un yn awyddus i ymuno a chyfrannu at ganeuon a gweithgareddau yn ystod amser cylch.

Mae'r plant yn llawn brwdfrydedd, ac yn ymgysylltu'n llawn â'u chwarae. Maent yn canolbwyntio'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi ag offer a deunyddiau gwahanol. Er enghraifft, maent yn dyfalbarhau wrth arbrofi â gwahanol gynhwysion wrth wneud pwdin Nadolig. Maent yn awyddus iawn i fwynhau cyfleoedd diddorol ac ysgogol o dan do ac yn yr awyr agored, ac maent hefyd yn dewis ymlacio a chael adegau distaw.

Mae bron bob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordeb yn hyderus ac maent yn hapus i ymuno â gweithgaredd gydag ymarferydd. Maent yn cael amrediad eang o gyfleoedd sy'n briodol o ran oedran a cham datblygiadol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd cadarn yn ystod eu hamser yn y lleoliad. Mae hyn yn cynnwys plant sydd wedi eu hadnabod fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae medrau llafar y plant yn datblygu'n dda yn eu hiaith gyntaf. Mae'r plant sydd â'r Gymraeg yn newydd iddynt yn arddangos dealltwriaeth dda iawn ac yn ymateb yn gynyddol hyderus. Mae'r plant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn defnyddio'u tafodiaith naturiol.

Mae bron bob plentyn yn mynd at lyfrau'n ddigymell ac yn mwynhau gwrando ar straeon yn cael eu darllen gan ymarferwyr. Mae diwylliant cryf o hyrwyddo pleser mewn darllen yn y lleoliad, ac o ganlyniad, mae'r plant wrth eu boddau â llyfrau o bob math.

Mae llawer o blant yn defnyddio offer creu marciau'n hyderus yn y gwahanol ardaloedd. Mae llawer yn arddangos annibyniaeth effeithiol wrth greu eu rhestr bwydydd eu hunain yn y siop. Maent yn mwynhau ysgrifennu llythyr bach at Sion Corn yn dweud beth yr hoffent ei dderbyn ganddo ar gyfer y Nadolig. Mae ychydig o blant yn ysgrifennu llythyrau estynedig gan arddangos ymwybyddiaeth gynnar o sut i greu brawddegau er mwyn mynegi ystyr.

Mae llawer yn adnabod siapiau dau ddimensiwn cyfarwydd, ac yn cyfeirio atynt wrth eu torri allan o does. Maent yn defnyddio offer ymarferol er mwyn cyfri hyd at ddeg, er enghraifft wrth ddefnyddio'r cylchoedd pren yn yr ardal tu allan. Mae ychydig o blant yn canu caneuon yn cynnwys rhifau o un hyd at ddeg yn hollol annibynnol a hyderus. Maent yn ymateb yn dda i gyfleoedd i chwarae gydag offer sy'n llawn a gwag, er enghraifft wrth ddarganfod faint o ddŵr fydd yn ffitio i mewn i gynhwysydd arbennig. Maent yn mwynhau gadael i'r dŵr lifo a'i weld yn powlio dros ben y cynhwysydd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn arddangos medrau creadigol cadarn, er enghraifft wrth greu darluniau hyfryd o'r pabi coch. Mae llawer yn arddangos rhythm da wrth baratoi'n frwdfrydig ar gyfer eu cyngerdd Nadolig. Mae medrau modur mân y rhan fwyaf yn datblygu'n briodol. Maent wrth eu boddau'n tynnu cracer y Nadolig, a'i ailosod at ei gilydd er mwyn cael yr un hwyl unwaith eto wrth dynnu drachefn.

Mae medrau corfforol bron bob plentyn yn datblygu'n gadarn. Maent yn arddangos cryfder a chydbwysedd da wrth reidio beiciau a thractorau yn yr ardal tu allan, ac wrth ddringo'r grisiau a llithro i lawr y llithren. Maent yn magu hyder wrth arwain agweddau ar eu chwarae ac yn gwneud dewisiadau am yr hyn yr hoffent ei wneud nesaf. Mae medrau digidol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n briodol. Maent yn creu eu henwau ar y sgrin fawr, ac yn dechrau defnyddio offer recordio llais.

**Gofal a datblygiad:**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o bolisïau a gweithdrefnau i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgareddau corfforol, diogelwch personol a llesiant y plant. Mae'r rhan fwyaf o ymarferwyr yn nodi risgiau ac yn eu rheoli'n weithredol. Er enghraifft, mae'r arweinwyr o hyd yn rhifo ac yn gwirio faint o blant oedd tu fewn neu du allan yn chwarae er mwyn sicrhau bod digon o ymarferwyr i'w goruchwylio. Mae'r ymarferwyr yn cynnal gweithdrefnau hylendid da ac arferion glanhau cadarn. Maent wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf paediatreg, sy'n eu paratoi i roi triniaeth frys os bydd damwain. Maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau a digwyddiadau'n briodol.

Mae ymarferwyr yn blaenoriaethu diogelwch plant ac yn rhoi gweithdrefnau effeithiol ar waith er mwyn sicrhau bod plant yn iach a diogel. Mae pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant addas ac yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo bwyta'n iach ac ymarfer corff yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol a threulio amser tu allan yn yr awyr iach.

Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol yn gyson. Maent yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol â'r plant, yn siarad â nhw'n annwyl ac yn eu trin â gofal a pharch. Maent yn ymateb i gwestiynau neu ddymuniadau'r plant ac yn ymateb i'w cyfathrebu di-eiriau. Mae'r holl ymarferwyr yn trin y plant mewn modd cynhaliol a chynnes, sy'n creu amgylchedd hapus dros ben lle mae plant yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r ymarferwyr yn sensitif i anghenion a phrofiadau plant unigol. Wrth siarad â'r plant, maent yn plygu i lawr i'w lefel, ac yn defnyddio iaith addas er mwyn sicrhau eu bod yn deall. Maent yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn gweithredu strategaethau cadarnhaol yn gyson.

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, eu galluoedd a'u hoffterau unigol. Er enghraifft, mae systemau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau allweddol i gefnogi'r plant hyn. Mae'r holl ymarferwyr yn blaenoriaethu anghenion y plant gan wybod pryd i helpu a phryd i gadw draw.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r person â gofal a'r ymarferwyr yn creu awyrgylch gefnogol a chynhaliol sy'n galluogi'r plant i wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu. Mae hyn yn cael ei amlygu yn effeithiol wrth gyflwyno dulliau newydd ac amgen o weithio wrth gyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n llwyddiannus i gynllunio amrediad o brofiadau dysgu, sy'n gwneud defnydd o ystod gyfoethog o adnoddau, ac yn darparu cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu medrau. Maent yn cynllunio mewn modd hyblyg sy'n rhoi cyfle iddynt osod trywydd ar gyfer y medrau maent yn dymuno i'r plant eu dysgu, gan hefyd roi cyfle i'r plentyn ddewis lle'r hoffai chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn barhaus a hynod effeithiol. O ganlyniad, mae'r plant yn arddangos dealltwriaeth dda iawn o'r iaith, hyd yn oed os nad ydynt yn siarad yr iaith tu allan i'r lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn hwyluso'r dysgu yn fedrus gan annog y plant i gymryd rhan mewn gweithgaredd pan maent yn teimlo'n hapus i wneud. Maent yn holi'r plant yn fedrus, gan ymyrryd er mwyn hwyluso'r dysgu pan fydd angen.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyfoethog i'r plant ddatblygu eu medrau o fewn gwahanol ardaloedd dysgu a chwarae, er enghraifft wrth ddefnyddio 1 sgwp o gyrens, 2 o flawd ac 1 o syltanas wrth wneud cacen yn y gegin fwd. Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwynhau llyfrau gan feithrin ymwybyddiaeth o bwysigrwydd darllen er pleser. Mae'r llyfrau wedi eu dethol yn ofalus er mwyn meithrin dealltwriaeth, er enghraifft wrth drafod pobl sydd â chefndiroedd ac anghenion gwahanol. Darperir cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cyrff, er enghraifft wrth ddringo fel y mwnci neu sefyll fel fflamingo ar un goes. O ganlyniad, mae rhan fwyaf o'r plant yn arddangos rheolaeth dda o'u cyrff a chydbwysedd da. Er hyn, nid yw ymarferwyr bob amser yn darparu cyfleoedd i'r plant fynegi eu hunain yn greadigol trwy ddewis o blith amrywiaeth o ddefnyddiau wrth addurno eu gwaith.

Mae adnoddau digidol amrywiol ar gael i'r plant eu defnyddio yn ystod eu chwarae. Er enghraifft, mae sgrin fawr lle gall y plant greu darluniau mawr gyda'u ffrindiau, gan ddatblygu medrau modur mân yn effeithiol. Maent yn defnyddio offer recordio syml,

sy'n rhoi cyfle iddynt recordio eu sgwrs, neu wrth fynd am dro i leoliadau yn y gymuned.

Mae'r ymarferwyr wedi addasu eu strwythurau ar gyfer asesu cynnydd y plant yn sgil cyflwyno'r Cwricwlwm i Gymru. Maent yn cofnodi cynnydd arwyddocaol yn rheolaidd ac yn rhannu gwybodaeth â rhieni yn effeithiol. Maent yn cynllunio amrediad effeithiol o gyfleoedd i'r plant wneud penderfyniadau am eu dysgu.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau bod gweithdrefnau iechyd a diogelwch effeithiol ar waith er mwyn monitro a rheoli unrhyw beryglon posibl. Mae asesiadau risg ysgrifenedig yn gynhwysfawr ac yn amlinellu'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg i blant. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn gweithredu rhagofalon diogelwch yn effeithiol, fel gwirio'r ardal awyr agored cyn i blant ei defnyddio. Mae arweinwyr yn cadw cofnod o'r holl blant, staff ac ymwelwyr, yn sicrhau bod prif ddrysau yn cael eu cadw ar glo, ac yn gweithredu system gadarn ar gyfer rheoli mynediad i'r safle. Maent yn sicrhau bod profion diogelu'r amgylchedd yn cael eu cynnal yn gyson ac yn cadw copïau o'r tystysgrifau diogelu.

Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r amgylchedd mewnol yn ystyriol i sicrhau ardaloedd diddorol ac ysgogol, sy'n darparu profiadau cyfoethog i blant. Mae'r lleoliad yn groesawgar, yn gynnes, ac yn hygyrch i bawb. Mae'r person cofrestredig yn sicrhau bod adnoddau ar gael sy'n cyfateb i ddiddordebau'r plant. Cedwir yr offer ar lefel isel gyda labeli'n nodi'r cynnwys. Mae hyn yn sicrhau bod bob plentyn yn gallu cyrraedd yr adnoddau'n hwylus. Yn ogystal, mae cyfleoedd gwerthfawr i'r plant ddewis cyfarpar yn annibynnol, sy'n hyrwyddo eu synnwyr o gyfrifoldeb yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn trefnu bod y plant yn cael cyfle i ddewis ble i chwarae y tu fewn neu tu allan trwy system chwarae llif rhydd ac mae'r ardal allanol yn ymestyniad o'r ardaloedd dysgu tu fewn. Mae'r amgylchedd yn gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a gweithgareddau amrywiol. Mae'r plant yn cael cyfle i fynd i'r tai bach a defnyddio'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân ac yn cydymffurfio â gofynion glendid yn briodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau y gall bron bob plentyn gael mynediad at amrywiaeth eang o ddodrefn, teganau ac offer sy'n briodol i'w hoedran. Maent yn cynnwys adnoddau sy'n helpu datblygu medrau creadigol, cyfathrebu, cymdeithasol, mathemategol a chorfforol o dan do ac yn yr awyr agored. Maent hefyd yn defnyddio pethau sy'n helpu gyda dealltwriaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, mae ganddynt adnoddau sy'n cefnogi dysgu am leihau gwastraff trwy ailgylchu ac ailddefnyddio. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod popeth yn lân a phriodol ac o ansawdd da ar gyfer y plant ac maent yn cael eu cynnal a chadw'n dda.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae gan person â gofal weledigaeth gref sydd wedi ei seilio ar gynnal lleoliad hapus a gweithgar. Mae'r weledigaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol ganddi a'i chyd-ymarferwyr sy'n ymroddgar iawn i'r plant. Maent yn canolbwyntio'n barhaus ar gynnal darpariaeth sy'n cefnogi lles y plant, ac yn eu herio i ddatblygu hyd eithaf eu gallu, a mwynhau dysgu.

Mae’r person cofrestredig yn ymroddgar iawn i’r lleoliad ac mae ganddi berthynas weithio agos â’r person â gofal a’r ymarferwyr. Mae’n cydweithio’n agos â’r lleoliad ar lefel ymarferol ac yn darparu cefnogaeth arweiniol bwysig ar gyfer y pwyllgor rheoli a’r swyddogion. Mae ganddi drosolwg o waith y lleoliad tros gyfnod estynedig, ac mae hyn wedi bod o fudd sylweddol iddynt.

Mae’r person â gofal yn cydweithio’n agos ac effeithiol gyda swyddogion ac aelodau’r pwyllgor rheoli. Mae hyn yn hwyluso gwaith y lleoliad yn llwyddiannus. Mae gan y pwyllgor rheoli wybodaeth drylwyr am waith y lleoliad, ac maent yn darparu cefnogaeth reolaidd ac ymarferol i’r person â gofal. Mae gan arweinwyr berthynas waith agos iawn ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a gyda swyddogion y mudiadau cefnogi. Maent yn cydweithio’n bwrpasol, yn arbennig wrth drafod datblygiadau cwricwlaidd yn sgil cyflwyno’r Cwricwlwm i Gymru.

Mae strwythur hunanwerthuso effeithiol a chyson wedi ei sefydlu. Mae’n broses barhaus o werthuso ac addasu ac mae’n canolbwyntio ar gynnal a datblygu’r ddarpariaeth fel ei bod yn hyrwyddo dysgu a lles y plant yn effeithiol. Enghraifft nodedig yw’r ffordd y maent wedi llwyddo i ddatblygu cyfleoedd i’r plant fwynhau chwarae yn yr awyr agored a chael mynediad di-rwystr yn ystod eu cyfnodau chwarae arferol. Mae arweinwyr yn defnyddio canfyddiadau’r broses hunanwerthuso er mwyn adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae’r ymarferwyr yn cael eu dyrannu’n ofalus ar gyfer gwahanol agweddau o waith y lleoliad. Mae arweinwyr yn defnyddio’r cyllid er mwyn sicrhau ystod gyfoethog o adnoddau sy’n hyrwyddo profiadau’r plant yn llwyddiannus. Maent yn trefnu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol addas a pherthnasol, sy’n cael dylanwad cadarnhaol ar eu hyder ac ar safon y ddarpariaeth. Er enghraifft, yn ddiweddar, cafwyd hyfforddiant ar ddatblygu medrau gwaith coed plant bach, a hyfforddiant ar sut i gefnogi eu lles.

Mae’r ymarferwyr yn darparu amrediad da o brofiadau dysgu sy’n annog datblygiad cymdeithasol y plant trwy ymweliadau â’r gymuned yn Nhalybont. Er enghraifft, maent yn mynd ar deithiau bach o amgylch y pentref gan ymweld â’r siopau lleol er mwyn prynu nwyddau sydd eu hangen arnynt ar gyfer coginio. Maent yn cynnal gweithgareddau mewn lleoliadau lleol fel cynnal eu dathliad Nadolig yn neuadd y pentref. Mae hyn yn hyrwyddo ymdeimlad y plant o berthyn i’w cymuned yn effeithiol. Mae arweinwyr yn cydweithio’n agos â’r ysgol gynradd gyfagos ac mae hyn yn gymorth i’r plant sy’n trosglwyddo yno.

Mae gan arweinwyr ddatganiad o ddiben addas a chyfredol sy'n adlewyrchu'r gwasanaeth a ddarperir ac yn bodloni’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Maent wedi gweithio’n bositif er mwyn gwneud gwelliannau i’r gwasanaeth er mwyn bodloni gofynion y diffyg cydymffurfio o’r arolwg AGC diwethaf. Mae arweinwyr yn dilyn proses recriwtio ddiogel ac yn sicrhau bod ymarferwyr profiadol a phroffesiynol yn gweithio yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw’r arweinwyr wedi llwyddo i recriwtio staff cymwysedig i sicrhau cydymffurfiaeth â’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae arweinwyr yn dilyn prosesau rheoli perfformiad priodol ac yn annog ymarferwyr i fynychu hyfforddiant perthnasol. Caiff goruchwyliaeth ac arfarniadau sylfaenol eu cynnal yn rheolaidd.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2023